

DAFYDD, MEURIG (1514 - 1595), bardd proffesyddol, Pabydd selog, ac un o'r ffigurau pwysicaf yn hanes llên Morgannwg yn hanner olaf yr 16eg. ganrif

Enw: Meurig Dafydd
Dyddiad geni: 1514
Dyddiad marw: 1595
Priod: Joan Dafydd (née Mathew)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd proffesyddol, Pabydd selog, ac un o'r ffigurau pwysicaf yn hanes llên Morgannwg
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Thomas Oswald Phillips

Gŵr a hanoedd o Lanisien yn ymyl Caerdydd ydoedd. Priododd Joan Mathau, wyres **Syr Cristor Mathau** o Landaf. Bu'n fardd teulu i **Lewysiaid** y Fann (Caerffili) am yn agos i ddeugain mlynedd, ond mynychai dai bonedd Morgannwg, Gwent, a De Brycheiniog ar ei deithiau clera. Corfforir ei holl waith prydyddol yn Llanofor MS. B 5, a hynny yn ei ysgrifflaw ef ei hun. Yn ôl ffasiwn beirdd ei gyfnod ymddiddorai mewn achau a hynafiaethau, a llanwodd y swydd o 'herehaut,' neu wr yn medru achau, yn y cyngaws yn Llwydlo. Ystrydebol, oer, a diawen yw ei farddoniaeth gaeth, heb ddim o'r grymuster a nodweddi farddoniaeth ei athro '**Lewys Morgannwg**'. Gwyntyllwyd yn llwyr ffug ddamcaniaethau '**Iolo Morgannwg**' ynghylch pwysigrwydd Meurig Dafydd yn hanes datblygiad y gyfundrefn farddol a luniodd '**Iolo**' ac a gorfforir yn '**Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain**'.

Awdur

Thomas Oswald Phillips

Ffynonellau

- G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 77-9
G. J. Williams, *Iolo Morgannwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (1926)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733915

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Prifannu

Arddull APA

x

Phillips, T. O., (1953). DAFYDD, MEURIG (1514 - 1595), bardd proffesyddol, Pabydd selog, ac un o'r ffigurau pwysicaf yn hanes llên Morgannwg yn hanner olaf yr 16eg. ganrif. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAFY-MEU-1514>

Prifannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government